

## 2013 Rhif 2905 (Cy. 283)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Bryn-mawr i Gylchfan Carmeltown, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

*Gwnaed* 14 Tachwedd 2013

*Yn dod i rym* 18 Tachwedd 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Tachwedd 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Bryn-mawr i Gylchfan Carmeltown, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 18 Tachwedd 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw:

i. y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Bryn-mawr, Bryn-mawr i'w chyffordd ag ochr

ddwyreiniol cerbyffordd gylchredol Cylchfan Carmeltown, Glynebwy ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ii. y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 wrth gyffordd Garnlydan.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Tachwedd 2013

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.